Senedd Cymru
**Fforwm y Cadeiryddion**

# Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd

Mawrth 2026

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **UnedCydgysylltu@senedd.cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Fforwm y Cadeiryddion**

# Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd

Mawrth 2026

# Ynglŷn â Fforwm y Cadeiryddion

Mae Fforwm y Cadeiryddion yn cynnwys Cadeirydd pob Pwyllgor yn y Senedd, ar wahân i'r Pwyllgor Busnes.

## Aelodau'r Fforwm:



**Cadeirydd:**
**Elin Jones AS**
Plaid Cymru



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



**David Rees AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd ........ 5**

**Argymhellion ........ 6**

**1. Cyflwyniad ........ 9**

**2. Diwylliant Pwyllgorau ........ 10**

Cynllunio Strategol ........ 10

Argymhellion Pwyllgorau ........ 12

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ........ 14

Ymgysylltu â rhanddeiliaid ........ 17

Monitro amrywiaeth y dystiolaeth ........ 18

Rôl y Cadeirydd a Diwylliant o Gydweithredu Trawsbleidiol ........ 19

Rôl Fforwm y Cadeiryddion ........ 21

Hyfforddiant a Chymorth i Bwyllgorau ........ 22

***3.* Trefniadaeth busnes y pwyllgorau ........ 24**

Strwythur y pwyllgorau ........ 24

Maint ac aelodaeth y pwyllgorau ........ 26

Amserlennu a Defnydd o Amser ........ 27

Gwaith craffu deddfwriaethol ........ 28

**4. Rhyngweithiadau â phwyllgorau'r Senedd ........ 31**

Gweithio hybrid a rhithwir ........ 31

Cymorth ymchwil i'r pwyllgorau gan Ymchwil y Senedd ........ 32

Y defnydd o'r Gymraeg ........ 33

**Atodiad 1 : Gwybodaeth Gefndirol ........ 35**

Beth yw Fforwm y Cadeiryddion? ........ 35

Gwybodaeth am y Pwyllgorau ..... 35

**Atodiad 2 : Cylch Gorchwyl ..... 38**

**Atodiad 3 : Enghreifftiau o Ffyrdd o Weithio ..... 39**

**Atodiad 4 : Cyfrifoldebau'r Cadeiryddion ..... 41**

Cyfrifoldebau allweddol cadeiryddion y pwyllgorau ..... 41

**Atodiad 5 : Crynodeb o'r Monitro Amrywiaeth Tystiolaeth 2024-25 ..... 42**

Cyfrannu tystiolaeth ..... 44

Cynrychiolaeth ddemograffig ..... 45

Cynrychiolaeth ddaearyddol ..... 47

Y sectorau a gynrychiolwyd ..... 48

Y profiad o roi tystiolaeth ..... 49

# Rhagair y Cadeirydd

Yn aml, mae pwyllgorau'n cael eu disgrifio fel ystafell injan y Senedd. Maent yn gweithio'n ddiwyd i edrych ar bolisi a deddfwriaeth yn fanwl, gan helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl rydym yn eu cynrychioli. Mae'r gwaith craffu hanfodol hwn yn cael ei gynnal gan Aelodau'r meinciau cefn a gall wneud cyfraniad sylweddol at effeithiolrwydd y Senedd a Llywodraeth Cymru. Gyda hyn mewn golwg rydym ni, fel Cadeiryddion Pwyllgorau, wedi paratoi'r adroddiad hwn, gan fyfyrio ar sut mae'r Pwyllgorau wedi gweithredu yn ystod y Senedd hon a sut y gallant barhau i weithio'n effeithiol yn y dyfodol.

Er mwyn i Bwyllgorau weithredu'n dda, rhaid i'r pethau sylfaenol fod yn iawn. Mae cynllun strategol clir yn hanfodol, gan roi ymdeimlad o gyfeiriad a galluogi gwaith Pwyllgor i ddatblygu drwy gydol tymor y Senedd. Mae eglurder o'r fath yn helpu i ymgysylltu ag Aelodau a rhanddeiliaid fel ei gilydd. Rydym hefyd yn ystyried ei bod yn hanfodol bod pob Aelod yn cael hyfforddiant a chefnogaeth briodol er mwyn iddynt allu cynyddu eu heffeithiolrwydd a'u dylanwad i'r eithaf fel Aelodau a Chadeiryddion Pwyllgorau. Dylai allbynnau'r pwyllgorau barhau i ganolbwyntio ar y materion allweddol, gan wneud argymhellion cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, y gellir eu holrhain, eu gweithredu a'u cyflawni.

Wrth i ni edrych ymlaen at y Seithfed Senedd, rydym yn gobeithio y bydd yr holl Aelodau'n cydnabod pwysigrwydd gwaith y Pwyllgorau a rôl hanfodol y Pwyllgorau wrth ddwyn y Llywodraeth bresennol i gyfrif.

Mae'n fraint gwasanaethu fel Cadeirydd neu Aelod o Bwyllgor y Senedd. Pan gaiff ei wneud yn effeithiol, mae'r gwaith hwn yn hynod werthfawr ac yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i bobl Cymru.

**Elin Jones AS**
Llywydd a Chadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod pob pwyllgor yn datblygu cynllun strategol ar gyfer ei dymor sy'n cefnogi ac yn datblygu gwaith craffu ar feysydd allweddol o fewn y cylch gorchwyl. Dylai pwyllgorau ddefnyddio hwyluso allanol lle bo'n briodol a dylid adolygu'r cynllun o bryd i'w gilydd yn ystod y Senedd....Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod pwyllgorau'n ystyried gwneud argymhellion penodol a monitro eu gweithrediad a'u heffaith yn ystod cyfnod y Senedd. ....Tudalen 14

**Argymhelliad 3.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod swyddogion Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig sy'n ffurfioli'r arfer da o ymgysylltu'n gynnar a rhannu gwybodaeth rhwng y llywodraeth a Phwyllgorau. ....Tudalen 17

**Argymhelliad 4.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o Filiau drafft i alluogi Pwyllgorau i gynnal gwaith craffu cyn deddfu....Tudalen 17

**Argymhelliad 5.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylai Pwyllgorau barhau i adeiladu ar y gwaith cadarnhaol i ehangu ymgysylltiad, a defnyddio profiadau byw lle bo hynny'n berthnasol....Tudalen 18

**Argymhelliad 6.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylai swyddogion Comisiwn y Senedd ystyried yr ystod o ddata a gesglir fel rhan o'r gwaith monitro amrywiaeth tystiolaeth ac archwilio'r opsiynau ar gyfer datblygu casglu data e.e. gan Bwyllgor a dylid darparu adroddiadau blynyddol i Fforwm y Cadeiryddion (neu gorff cyfatebol) a'u cyhoeddi....Tudalen 19

**Argymhelliad 7.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylid darparu dogfen rolau a chyfrifoldebau i Gadeiryddion ac Aelodau Pwyllgorau ar ddechrau'r Senedd i osod disgwyliadau clir arnynt. Dylid annog a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu anffurfiol rhwng Cadeiryddion....Tudalen 21

**Argymhelliad 8.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell, er mwyn cryfhau ei effaith a'i barhad, y dylid ystyried ffurfioli Fforwm y Cadeiryddion ar gyfer y Seithfed Senedd....Tudalen 22

**Argymhelliad 9.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylid annog Cadeiryddion ac Aelodau Pwyllgorau i gael hyfforddiant sy'n ymwneud â gwaith pwyllgor. Dylai hyn fod yn rhan o ddatblygiad parhaus yn hytrach na sesiwn untro. ........ Tudalen 23

**Argymhelliad 10.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod y model presennol o bwyllgorau polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol yn cael ei ddefnyddio yn y Senedd nesaf, gyda hyblygrwydd yn cael ei feithrin yn y system i sefydlu Pwyllgorau ychwanegol yn ôl pwysau deddfwriaethol a phwysau eraill. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 11.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell na ddylid sefydlu unrhyw Bwyllgor sydd â chylch gorchwyl sylweddol gyda phedwar Aelod, ac y dylai'r nifer diofyn ar gyfer Pwyllgorau polisi a deddfwriaeth fod yn chwe Aelod o leiaf. ........ Tudalen 27

**Argymhelliad 12.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Pwyllgorau yn y Senedd nesaf yn edrych ar opsiynau ar gyfer mynd ati i wneud gwaith Pwyllgor gan ddefnyddio'r ystod o ddarpariaethau sydd ar gael yn y Rheolau Sefydlog ac arfer yn y gorffennol. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 13.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymgyngoreion ffurfiol Pwyllgorau'r Senedd wrth gyhoeddi rheoliadau drafft. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 14.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl Araith y Brenin, lle mae Llywodraeth y DU naill ai'n bwriadu deddfu mewn maes datganoledig neu lle mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 15.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod y canllawiau ar gyfer trafodion hybrid a rhithwir yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn y Seithfed Senedd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu arferion gwaith y Senedd. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 16.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Pwyllgorau'n gwneud defnydd effeithiol a chyson o Ymchwil y Senedd drwy ymgorffori ymgysylltu strwythuredig â briffiadau ymchwil mewn rhag-gyfarfodydd pwyllgorau, gan gynnwys cyflwyniad llafar byr gan ymchwilwyr i gefnogi'r gwaith o gynllunio sesiynau tystiolaeth a meysydd holi. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 17.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn archwilio opsiynau ar gyfer gwella'r dechnoleg sy'n cefnogi cyfieithu ar y pryd yn gynnar yn y Seithfed Senedd. ........ Tudalen 34

# 1. Cyflwyniad

**1.** Wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, mae Fforwm y Cadeiryddion ("y Fforwm") wedi cynnal adolygiad o effeithiolrwydd pwyllgorau yn ystod y Chweched Senedd. Nod y gwaith hwn oedd sicrhau bod pwyllgorau'r Senedd, sy'n ganolog i graffu, atebolrwydd a datblygiad deddfwriaeth Cymru, yn parhau i weithredu gydag eglurder, pwrpas ac effaith yn y Seithfed Senedd.

**2.** Gan adeiladu ar brofiadau yn y Chweched Senedd ac argymhellion gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol, cytunodd y Fforwm ym mis Mawrth 2025 i edrych ar dri maes allweddol: diwylliant pwyllgorau; trefn busnes; a rhyngweithio â phwyllgorau, gan gynnwys sut mae pwyllgorau'n ymgysylltu â rhanddeiliaid, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd yn ehangach. Mae'r adolygiad hefyd wedi ystyried argymhellion gwaith cynharach yr Athro Diana Stirbu ar effeithiolrwydd pwyllgorau.

**3.** Er mwyn helpu i lunio'r gwaith hwn, cynhaliodd y Fforwm ymgynghoriad o fis Gorffennaf i fis Hydref 2025 a daeth 14 ymateb i law.[1] Cafwyd ymatebion gan bwyllgorau, Llywodraeth Cymru, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, y Sefydliad Materion Cymreig a Natasha Asghar AS.

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau adolygiad y Fforwm, gan amlygu themâu allweddol a nodi myfyrdodau i gefnogi datblygiad parhaus system bwyllgorau sy'n wydn, yn gynhwysol ac sydd â'r adnoddau i ddiwallu gofynion craffu Senedd sy'n aeddfedu. Cynigir casgliadau'r adolygiad hwn i'r Seithfed Senedd i lywio ei phenderfyniadau ynghylch strwythur ac amserlen y pwyllgorau.

[1] Ymatebion i'r ymgynghoriad

# 2. Diwylliant Pwyllgorau

**5.** Dros y chwe Senedd diwethaf, mae ffurf a swyddogaeth y pwyllgorau wedi esblygu'n fawr – o'r system bwyllgorau gychwynnol a oedd yn cynnwys Aelodau o'r Llywodraeth, i strwythur y Chweched Senedd gyda phwyllgorau polisi a deddfwriaeth dwy swyddogaeth a nifer o bwyllgorau eraill sydd â chyfrifoldeb am swyddogaethau penodol.

**6.** Mae'r pwyllgorau wedi datblygu ffyrdd o weithio i sicrhau eu bod yn gallu dwyn y llywodraeth i gyfrif a chraffu ar ddeddfwriaeth a chyllidebau yn effeithiol. Mae datblygiadau mawr wedi'u cynnwys mewn gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog, megis ethol Cadeiryddion, ond mae llawer o'r ffyrdd o weithio wedi esblygu o brofiad a dysgu.

**7.** Argymhellodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol y dylai'r Fforwm:

> *"… ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd… ystyried comisiynu gwaith i gofnodi a chyfleu diwylliant pwyllgorau'r Senedd yn y Chweched Senedd, gyda'r bwriad o nodi'r normau ac arferion anffurfiol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan Aelodau, a'r rhai nad ydynt, er mwyn cynorthwyo i gadw normau ac arferion cadarnhaol rhwng Seneddau, a llywio prosesau cynefino."*

**8.** Mae diwylliant y pwyllgorau yn y Senedd yn rhywbeth sydd wedi'i feithrin dros Seneddau olynol, ac fe'i hystyrir yn eang yn hanfodol i effeithiolrwydd o fewn y Senedd. Y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o waith y Fforwm yw cynllunio strategol, ymgysylltu ac allbynnau; a rôl Aelodau a Chadeiryddion ar bwyllgorau.

## Cynllunio Strategol

**9.** Adroddodd pwyllgorau polisi fod cynllunio strategol cynnar wedi helpu i sefydlu ymdeimlad cyffredin o ddiben ac wedi darparu fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau. Gwelwyd hyn yn arbennig o effeithiol lle'r oedd sesiynau cynllunio yn cael eu cefnogi gan ryw fath o hwyluso neu her allanol. Tynnodd sawl pwyllgor sylw hefyd at werth ailystyried blaenoriaethau strategol yn ystod y Senedd, yn enwedig yn dilyn newidiadau yn yr aelodaeth, er mwyn cynnal perchnogaeth a ffocws ar y cyd.

**10.** Cyfeiriodd nifer o bwyllgorau at enghreifftiau o arfer effeithiol. Cynhaliodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

ymarferion cynllunio strategol ar ddechrau'r Chweched Senedd, a osododd gyfeiriad clir i'w gwaith a sicrhau bod ymchwiliadau dilynol yn cyd-fynd â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi parhau i ddefnyddio ei flaenoriaethau strategol fel prawf ar gyfer ymchwiliadau posibl yn y dyfodol, wedi'i gefnogi gan dempled strwythuredig a baratowyd gan swyddogion ac a gynhwysir ym mhapurau'r pwyllgorau.

**11.** Ochr yn ochr â'r sesiynau cynllunio strategol, roedd cefnogaeth i bwyllgorau ymgynghori ar eu rhaglenni gwaith i sefydlu eu meysydd ffocws. Rhoddodd y Sefydliad Materion Cymreig y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith fel enghraifft o bwyllgor a oedd wedi gwneud hyn yn dda ar ddechrau'r Senedd.

**12.** Mae'r dulliau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r Athro Diana Stirbu, yn ei hadroddiad 'Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd', a ddywedodd:

> *"Gall pwyllgorau effeithiol* ***gynllunio a rheoli eu gwaith yn strategol****, bod â nodau a diben eglur, a chynnal ffocws drwy gydol y tymor heb rwystro'r angen i fod yn hyblyg ac yn ystwyth ar adegau. Maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau, nid gweithgareddau ac mae ganddynt syniad clir a rennir o beth yw llwyddiant a sut y gellid dangos tystiolaeth ohono."*

**13.** Argymhellodd yr Athro Stirbu hefyd y dylid mabwysiadu model damcaniaeth newid i helpu gyda gwerthuso, sef rhywbeth y gallai'r Cadeiryddion fod eisiau ystyried ei hyrwyddo ymhellach mewn perthynas â'r dull strategol o weithio gyda phwyllgorau:

> *"A.9. Mabwysiadu model sy'n seiliedig ar Theori Newid i gynllunio, adolygu, gwerthuso a chyfleu uchelgeisiau a chyflawniadau pwyllgorau. Bydd hyn yn helpu i symud y ffocws o allbynnau i ganlyniadau. Dylai cyfleoedd hyfforddi a datblygu fod ar gael i aelodau a swyddogion ymgyfarwyddo â'r modelau theori newid ac offer gwerthuso eraill."*

**14.** Nod yr argymhelliad hwn oedd cysylltu gosod nodau a strategaeth â gwaith gwaddol, a gweithredu proses o fyfyrio, gwerthuso ac ystyried effaith. Nid oes angen terminoleg y Ddamcaniaeth Newid o reidrwydd i wneud hyn, a gall fod yn gymhleth yn ddiangen. Trafodir y dull o werthuso argymhellion yn yr adran nesaf.

**15.** Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad gan y Prif Weithredwr a Chlerc y Comisiwn yn nodi y byddai'r Comisiwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i hwyluso pwyllgorau sy'n ymgymryd â gwaith cynllunio strategol o'r fath.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**16.** Mae defnyddio cynllunio strategol yn allweddol i bwyllgorau ar ddechrau Senedd. Mae'n caniatáu i'r Aelodau roi mewnbwn i gyfeiriad pwyllgor a deall ei gyfeiriad. Mae diben cyfunol yn werthfawr er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n teimlo mwy o berchnogaeth dros waith y pwyllgor.

**17.** Bydd hyn yn arbennig o bwysig ar ddechrau'r Seithfed Senedd gyda mewnlifiad sylweddol o Aelodau newydd, a fydd â lefelau amrywiol o brofiad o ran gwaith pwyllgor a chraffu.

**18.** Myfyriodd y Cadeiryddion fod gwerth mewn defnyddio system hwyluso allanol wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn.

**19.** Roedd y Cadeiryddion o'r farn bod angen i gynlluniau strategol fod yn ddogfennau byw drwy'r Senedd, yn hytrach na'u gosod yn anhyblyg ar y dechrau. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r cynlluniau fod yn ymatebol a datblygu wrth i brofiad dyfu ac o bosibl addasu yn sgil newidiadau aelodaeth.

**20.** Mae adroddiadau gwaddol y pwyllgorau yn adnodd defnyddiol, a dylai pwyllgorau'r Seithfed Senedd eu hystyried ochr yn ochr â phennu'r strategaeth.

**Argymhelliad 1.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod pob pwyllgor yn datblygu cynllun strategol ar gyfer ei dymor sy'n cefnogi ac yn datblygu gwaith craffu ar feysydd allweddol o fewn y cylch gorchwyl. Dylai pwyllgorau ddefnyddio hwyluso allanol lle bo'n briodol a dylid adolygu'r cynllun o bryd i'w gilydd yn ystod y Senedd.

## Argymhellion Pwyllgorau

**21.** Mae argymhellion yn allbwn canolog o waith pwyllgor ac maent wedi'u cysylltu'n agos â gwaith cynllunio strategol effeithiol a gosod nodau ac amcanion clir. Tynnodd ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau o fewn Fforwm y Cadeiryddion sylw at bwysigrwydd mabwysiadu dull mwy strategol o ddatblygu, cyflwyno a dilyn argymhellion pwyllgor.

**22.** Awgrymodd ymateb Llywodraeth Cymru y dylai pwyllgorau wneud llai o argymhellion, gyda ffocws cliriach ar ganlyniadau yn hytrach na manylion

gweithredol. Mae hyn yn adlewyrchu llythyr[2] a anfonwyd yn flaenorol gan y Prif Weinidog at y Fforwm. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng casgliadau ac argymhellion. Mae'r Fforwm wedi bod yn glir mai mater i'r pwyllgorau yw penderfynu ar eu casgliadau a'u hargymhellion ac nad oes disgwyl i Lywodraeth Cymru dderbyn pob argymhelliad a wneir gan bwyllgorau, ac na ddylid disgwyl iddi wneud hynny. Fodd bynnag, roedd cytundeb eang bod argymhellion yn fwy effeithiol pan fydd ganddynt ffocws, maent wedi'u fframio'n glir, a lle gellir eu monitro dros amser.

**23.** Nododd ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau'r Fforwm nifer o feysydd posibl ar gyfer datblygiad yn y Seithfed Senedd, gan gynnwys:

- cyflwyno dull mwy safonol o olrhain a monitro argymhellion pwyllgorau;
- cryfhau gwaith dilynol, gan gynnwys drwy graffu ar ôl deddfwriaeth neu sesiynau dilynol, a cheisio barn rhanddeiliaid ar effaith argymhellion ar bolisi neu arfer; a
- datblygu canllawiau neu becyn cymorth sy'n nodi dulliau arfer da ar gyfer gwaith dilynol, gan gynnwys gwaith craffu ffurfiol ar Lywodraeth Cymru a gohebiaeth.

**24.** Mae'r themâu hyn yn cyd-fynd ag argymhellion a wnaed gan yr Athro Diana Stirbu, a ddadleuodd y dylai pwyllgorau wneud defnydd llawnach o'u pwerau i sbarduno gwelliant a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei hymgysylltiad â gwaith ac argymhellion pwyllgorau. Argymhellodd ei hadroddiad y dylai pwyllgorau:

- geisio adroddiadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ar weithredu argymhellion; ac
- ystyried dulliau cyfunol o graffu ar ymgysylltiad y Llywodraeth ag argymhellion a gwaith pwyllgorau, er enghraifft drwy'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog neu Fforwm y Cadeiryddion.

## Barn Fforwm y Cadeiryddion

**25.** Cydnabu'r Cadeiryddion y bydd y nifer a'r math priodol o argymhellion yn amrywio yn dibynnu ar natur y gwaith. Er enghraifft, efallai y bydd angen nifer fwy

[2] https://busnes.senedd.cymru/documents/s164844/PTN%204%20-%20Llythyr%20oddi%20wrth%20y%20Gwir%20Anrhydeddus%20Eluned%20Morgan%20AS%20Prif%20Weinidog%20Cymru%20at%20y%20Gwir%20Anrhyd.pdf

o argymhellion manwl ar adroddiadau ar ddeddfwriaeth, tra gall adroddiadau craffu ar bolisi elwa o lai o argymhellion ond sy'n fwy strategol.

**26.** Gan dynnu ar eu profiad, cytunodd y Cadeiryddion, mewn llawer o achosion, y gall cyfres o argymhellion sydd â mwy o ffocws gael mwy o effaith, a byddai'n haws i'w holrhain a'u gwerthuso dros amser. Pwysleisiodd y Cadeiryddion hefyd bwysigrwydd sicrhau amser yn rhaglenni gwaith y pwyllgorau i ailystyried argymhellion ac asesu cynnydd.

**27.** Awgrymodd y Cadeiryddion y byddai gwerth ystyried:

- hyfforddiant ar yr hyn sy'n gyfystyr ag argymhelliad effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau craffu; a
- dulliau cytunedig o fonitro a gwerthuso gweithrediad yr argymhellion a dderbyniwyd, gan gynnwys sut mae'r pwyllgorau'n asesu effaith y rhain.

**Argymhelliad 2.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod pwyllgorau'n ystyried gwneud argymhellion penodol a monitro eu gweithrediad a'u heffaith yn ystod cyfnod y Senedd.

## Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru

**28.** Mae ymgysylltu rhwng pwyllgorau a Llywodraeth Cymru yn elfen allweddol o waith craffu effeithiol. Tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad sylw at fanteision ymgysylltu'n gynnar ac yn adeiladol â swyddogion Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth gefnogi pwyllgorau i ddeall gwaith sydd eisoes ar y gweill, osgoi dyblygu, a chynllunio eu gweithgarwch craffu yn effeithiol.

**29.** Pwysleisiodd ymateb Llywodraeth Cymru werth ymgysylltiad technegol cynnar, gan gynnwys briffiadau a ddarperir gan swyddogion cyn sesiynau craffu ffurfiol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys briffiadau technegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyllid cyn craffu ar y gyllideb, ac ystyriwyd bod yr holl bethau hyn wedi gwella ansawdd a ffocws sesiynau tystiolaeth dilynol.

**30.** Codwyd themâu tebyg drwy adolygiad deddfwriaethol y Pwyllgor Busnes[3]. Yn benodol, awgrymodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith[4] y gellid cryfhau'r broses ar gyfer gwaith craffu deddfwriaethol drwy rannu Biliau drafft a deunydd esboniadol gyda phwyllgorau, yn gyfrinachol lle bo'n briodol.

---

[3] https://busnes.senedd.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=586&RPID=1071746383
[4] https://busnes.senedd.cymru/documents/s161121/PBMB15%20Climate%20Change%20Environment%20and%20Infrastructure%20Committee.pdf

Gwelwyd hyn fel ffordd o alluogi pwyllgorau i lunio barn fwy gwybodus ar ddigonolrwydd amserlenni deddfwriaethol a'r gofynion craffu tebygol yn gynharach.

**31.** Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn dangos y gall ymgysylltiad cynnar gyda Llywodraeth Cymru gallu cefnogi gwaith craffu mwy effeithiol drwy alluogi pwyllgorau i:

- ddatblygu dealltwriaeth gliriach o gyd-destun deddfwriaethol a pholisi;
- cynllunio rhaglenni gwaith yn fwy strategol; a
- gwneud gwell defnydd o sesiynau tystiolaeth ffurfiol gyda Gweinidogion.

**32.** Cododd y cadeiryddion bryderon nad yw cysylltiadau rhyngwladol wedi bod yn destun craffu digonol yn ystod y Senedd hon. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y cyfrifoldeb yn rhan o bortffolio'r Prif Weinidog, ac roedd nifer o heriau wrth sicrhau presenoldeb y Prif Weinidog yn y Pwyllgor.

## Gwrandawiadau cyn penodi

**33.** Ers 2019 mae'r Senedd wedi cynnal gwrandawiadau cyn penodi i graffu ar rai o ymgeiswyr Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Cyflwynwyd hyn i wella'r gwaith craffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus, a thryloywder y broses honno.

**34.** Mae'r gwaith craffu cyn penodi yn golygu bod ymgeisydd a ffefrir yn cael ei holi gan Bwyllgor perthnasol y Senedd. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad, fel arfer o fewn 48 awr i'r gwrandawiad, yn nodi ei farn ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd.

**35.** Mae gweithrediad gwrandawiadau cyn penodi wedi gwella'n gyffredinol dros gyfnod y tymor Senedd hwn. Mewn egwyddor, mae'r broses yn darparu mecanwaith gwerthfawr y gall Aelodau o'r Senedd ei ddefnyddio i asesu addasrwydd ymgeiswyr o ddewis Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus allweddol. Fodd bynnag, mae profiadau sawl pwyllgor yn awgrymu, er gwaethaf y cynnydd cyffredinol, fod gwendidau yn parhau yn y broses, a nodwyd hyn gan y Fforwm yn ystod y Senedd hon.

**36.** Mae'r Fforwm yn croesawu'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus mewn perthynas â phenodiadau

cyhoeddus y Senedd hon, ac yn nodi'r argymhellion a wnaed i wella'r wybodaeth yn y maes hwn.[5]

## Barn Fforwm y Cadeiryddion

**37.** Myfyriodd y Cadeiryddion fod achlysuron wedi bod, yn ystod y Chweched Senedd, lle nad oedd Gweinidogion yn fodlon neu ar gael i fynychu sesiynau craffu pwyllgorau, er gwaethaf cysylltu sylweddol ar lefel swyddogol i sicrhau bod ymrwymiadau Gweinidogol yn cael eu bodloni. Roedd y Fforwm yn glir yn ei farn ei bod yn ddisgwyliad rhesymol i Weinidogion fynychu cyfarfodydd pwyllgor pan gânt eu gwahodd, a bod penderfyniadau ynghylch tystion yn fater i bwyllgorau yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Dylai hyn fod yn berthnasol i bob maes o bortffolio Gweinidog, gan gynnwys cysylltiadau rhyngwladol.

**38.** Roedd y Fforwm o'r farn y gallai disgwyliadau cliriach, wedi'u nodi ar y cyd, helpu i gefnogi gwaith craffu effeithiol, gan gynnal parch priodol at rolau gwahanol y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth.

**39.** Cytunodd y Fforwm fod ymgysylltiad cynnar â swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno manteision clir yn ystod y Chweched Senedd ac y dylid ystyried ffurfioli rhai o'r arferion hyn yn y Seithfed Senedd. Awgrymodd y Cadeiryddion y gellid cyflawni hyn o bosibl drwy ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru. Gallai cytundeb o'r fath hefyd nodi disgwyliadau seneddol cliriach ynghylch ymgysylltiad Gweinidogol â phwyllgorau, gan gynnwys presenoldeb pan ofynnir amdano.

**40.** Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi mwy o Filiau drafft i alluogi'r pwyllgorau i gynnal gwaith craffu cyn deddfu. Byddem hefyd yn annog y pwyllgorau i barhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer craffu ar Ddeddfau'r Senedd ar ôl deddfu. Mae hyn yn darparu ar gyfer gwaith craffu gwell, mwy manwl ac effeithiol ar gylch oes cyfan darn o ddeddfwriaeth, fel y tynnwyd sylw ato gan adroddiad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Senedd ar Ddeddfu yng Nghymru (2015).

**41.** Mae'r Fforwm yn deall y bydd y canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi yn cael eu hadnewyddu cyn y Seithfed Senedd, a fydd yn cynnwys diweddaru'r rhestr o benodiadau sy'n ddarostyngedig i'r broses. Byddai cryfhau'r canllawiau yn gam cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â rhai o'r problemau a brofwyd yn ystod y Senedd hon.

[5] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=40498

**Argymhelliad 3.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod swyddogion Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig sy'n ffurfioli'r arfer da o ymgysylltu'n gynnar a rhannu gwybodaeth rhwng y llywodraeth a Phwyllgorau.

**Argymhelliad 4.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o Filiau drafft i alluogi Pwyllgorau i gynnal gwaith craffu cyn deddfu.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

**42.** Mae ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid yn elfen hanfodol o waith craffu pwyllgor effeithiol. Mae tystiolaeth a gesglir yn uniongyrchol gan y rhai yr effeithir arnynt gan bolisïau a deddfwriaeth yn rhoi cipolwg ar effeithiau'r byd go iawn ac yn helpu'r pwyllgorau i brofi rhagdybiaethau ac asesu canlyniadau.

**43.** Yn ystod y Chweched Senedd, ymgymerodd pwyllgorau â nifer o ddulliau arloesol o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd y dulliau hyn yn cefnogi casglu ystod ehangach o dystiolaeth a galluogi pwyllgorau i glywed gan leisiau nad ydynt bob amser yn cael eu cynrychioli drwy brosesau ymgynghori traddodiadol. Nodir enghreifftiau o arfer effeithiol yn Atodiad 3.

**44.** Ochr yn ochr â'r dulliau hyn, nododd y Cadeiryddion y rôl bwysig y mae'r Pwyllgor Deisebau wedi'i chwarae yn y Senedd hon wrth hyrwyddo a hwyluso lefelau uwch o ymgysylltu rhwng y cyhoedd â'r Senedd. Mae gwaith y Pwyllgor wedi helpu i godi materion sy'n gyfredol ac yn bwysig i ddinasyddion Cymru.

**45.** Mae'r dulliau hyn yn cyd-fynd ag argymhellion a wnaed gan yr Athro Diana Stirbu, a ddadleuodd y dylai pwyllgorau arbrofi gydag amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu i ehangu cyfranogiad a sicrhau bod profiad byw yn ganolog i weithgarwch craffu. Pwysleisiodd yr adroddiad bwysigrwydd adnoddau digonol ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu, ystyriaethau methodolegol clir wrth asesu gwahanol fathau o dystiolaeth, a thryloywder ynghylch sut mae profiad bywyd wedi llywio casgliadau ac argymhellion pwyllgorau.

**46.** Mewn tystiolaeth i adolygiad deddfwriaethol y Pwyllgor Busnes, mynegodd Llywodraeth Cymru bryderon ynghylch y potensial i ymgynghoriadau pwyllgorau ar ddeddfwriaeth ddyblygu prosesau ymgynghori'r Llywodraeth[6]. Awgrymodd y dylai'r pwyllgorau barhau i archwilio dulliau arloesol a cheisio tystiolaeth gan ystod amrywiol o dystion, gan gynnwys y rhai y tu hwnt i'r sectorau yr effeithir arnynt yn

[6] https://busnes.senedd.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=586&RPID=1071746383

uniongyrchol, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ehangach o ran budd y cyhoedd yn cael eu cofnodi.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**47.** Cytunodd y Cadeiryddion fod craffu ar bolisi a deddfwriaeth yn cael ei gryfhau drwy glywed gan ystod eang ac amrywiol o leisiau. O ran ymgynghori ar ddeddfwriaeth, nododd y Cadeiryddion sylwadau Llywodraeth Cymru, ond cafodd ei bwysleisio bod pwyllgorau'n craffu ar Filiau fel y'u cyflwynwyd. Felly, ni all ac ni ddylai pwyllgorau dybio bod y safbwyntiau a ddarparwyd yn ystod ymgynghoriadau polisi cynharach yn cynrychioli safbwyntiau rhanddeiliaid yn y cyfnod deddfwriaethol.

**48.** Pwysleisiodd y Cadeiryddion, er mwyn sicrhau gwaith craffu effeithiol, fod rhaid i bwyllgorau barhau i fod yn agored i glywed safbwyntiau newydd neu wahanol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu llywio gan brofiad personol neu gan ddatblygiadau ers ymarferion ymgynghori cynharach.

**Argymhelliad 5.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylai Pwyllgorau barhau i adeiladu ar y gwaith cadarnhaol i ehangu ymgysylltiad, a defnyddio profiadau byw lle bo hynny'n berthnasol.

## Monitro amrywiaeth y dystiolaeth

**49.** Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r pwyllgorau wedi casglu data ar amrywiaeth y dystiolaeth a gasglwyd gan y pwyllgorau. Mae'r wybodaeth hon wedi helpu'r pwyllgorau i ddechrau creu darlun cliriach o bwy sy'n cyfrannu at weithgareddau pwyllgorau a lle gallai fod bylchau mewn cynrychiolaeth. Mae'r crynodeb diweddaraf o ddata blynyddol ar gyfer 2024-25 yn Atodiad 5.

**50.** Mae casglu'r data hyn wedi cefnogi ymwybyddiaeth well o'r ystod o leisiau sy'n cyfrannu at waith y pwyllgorau ac wedi llywio'r broses o gyflwyno modiwlau hyfforddi newydd i swyddogion. Mae'r canlyniadau hefyd wedi ysgogi ystyriaeth a thrafodaeth gan bwyllgorau unigol ynghylch sut y gellir gwella dulliau ymgysylltu i gyrraedd y tu hwnt i'r 'rhai arferol'.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**51.** Cytunodd y Fforwm fod monitro amrywiaeth y dystiolaeth a gesglir gan bwyllgorau yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwaith craffu yn adlewyrchu profiadau a safbwyntiau trawsdoriad eang o gymdeithas. Roedd y Cadeiryddion o'r farn y dylai monitro amrywiaeth tystiolaeth barhau yn y Seithfed Senedd,

gydag adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Fforwm (neu gorff cyfatebol) a'u cyhoeddi.

**52.** Nododd y Cadeiryddion fod gwerth y data hyn nid yn unig mewn tryloywder, ond yn eu defnydd fel offeryn i lywio strategaethau ymgysylltu yn y dyfodol a chefnogi gwelliant parhaus mewn arfer pwyllgorau. Awgrymodd y cadeiryddion y dylid ystyried darparu dadansoddiad pellach o'r data i bob Pwyllgor i roi mewnwelediad pellach ar amrywiaeth cyfranogiad ym mhob maes polisi. Mae hwn yn faes y dylid ei ystyried yn unol â'r argymhellion o'r Adolygiad o'r Senedd Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd yn y Seithfed Senedd.

**Argymhelliad 6.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylai swyddogion Comisiwn y Senedd ystyried yr ystod o ddata a gesglir fel rhan o'r gwaith monitro amrywiaeth tystiolaeth ac archwilio'r opsiynau ar gyfer datblygu casglu data e.e. gan Bwyllgor a dylid darparu adroddiadau blynyddol i Fforwm y Cadeiryddion (neu gorff cyfatebol) a'u cyhoeddi.

## Rôl y Cadeirydd a Diwylliant o Gydweithredu Trawsbleidiol

**53.** Thema gyson ar draws yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y rôl ganolog a chwaraeir gan Gadeiryddion pwyllgorau wrth lunio diwylliant, tôn ac effeithiolrwydd y pwyllgorau. Mae Cadeiryddion yn gyfrifol nid yn unig am arwain gweithgarwch craffu, ond hefyd am feithrin perthnasoedd trawsbleidiol adeiladol a sicrhau bod pob Aelod yn cael ei gefnogi i gyfrannu'n effeithiol.

**54.** Tynnodd yr ymatebwyr sylw at werth ethol Cadeiryddion pwyllgorau gan y Senedd, gan nodi bod hyn yn cryfhau awdurdod ac annibyniaeth y rôl.

**55.** Ynghyd â myfyrdodau gan bwyllgorau ar aelodaeth pwyllgorau cynrychioliadol, awgrymodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y rhoddwyd ystyriaeth i sicrhau bod amrywiaeth hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn y rhai sy'n ymgymryd â rolau cadeirio.

**56.** Ar draws y pwyllgorau, roedd cytundeb eang bod cydweithredu trawsbleidiol wedi bod yn gryf yn ystod y Chweched Senedd. Awgrymodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y dylai gweithgarwch allanol, fel gwaith hyrwyddo, gynnwys ystod ehangach o Aelodau pwyllgorau yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar y Cadeirydd. Gwelwyd hyn fel ffordd o gryfhau ymhellach berchnogaeth ar y cyd a dealltwriaeth o waith trawsbleidiol.

**57.** Disgrifiodd rhai pwyllgorau gamau ymarferol yr oeddent wedi'u cymryd i gefnogi diwylliant cadarnhaol. Er enghraifft, cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon

Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyfarfodydd rhagarweiniol wythnosol gydag Archwilio Cymru ac Ymchwil y Senedd, gan alluogi'r Aelodau i archwilio materion cyn cymryd tystiolaeth ac i ddyrannu meysydd i holi cwestiynau yn eu cylch. Helpodd y dull cydweithredol hwn i feithrin hyder, gwella dealltwriaeth o'r pwnc a meithrin perthnasoedd gwaith adeiladol. Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog gyfarfodydd rhagarweiniol dair wythnos cyn sesiynau hefyd i dynnu ynghyd themâu trawsbynciol o bob pwyllgor a chefnogi holi cydgysylltiedig.

**58.** Pwysleisiodd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â thrafodaethau'r Fforwm ar hyfforddiant cynefino, yr angen cynyddol am gefnogaeth yn y Seithfed Senedd oherwydd y nifer disgwyliedig o Aelodau newydd — gan gynnwys Cadeiryddion newydd a dibrofiad o bosibl. Er enghraifft, nododd ymateb y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

> *"… teimlai'r Aelodau ei bod yn debygol y byddai gan nifer o bwyllgorau gadeiryddion newydd a dibrofiad ar ddechrau'r Seithfed Senedd ac, o'r herwydd, y byddai angen sicrhau bod hyfforddiant a chymorth priodol ar gael iddynt ar gyfer deall a chyflawni eu rôl."*

**59.** Nododd yr ymatebwyr fod cadeirio effeithiol yn gofyn am ystod eang o sgiliau, gan gynnwys rheoli dynameg pwyllgorau, cynnal cydbwysedd o fewn y pwyllgor, a chynrychioli'r pwyllgor yn allanol. Yn sgil hyn, ystyriwyd bod cefnogaeth wedi'i thargedu ar ddechrau'r Senedd, gan adeiladu ar ddogfen cyfrifoldebau'r Cadeiryddion (gweler Atodiad 4), yn bwysig.

**60.** Argymhellodd yr Athro Diana Stirbu hefyd y dylid ymgorffori gwerthuso a hunanfyfyrio rheolaidd yn arfer y pwyllgorau, wedi'i gefnogi gan gyfleoedd datblygu, canllawiau i Aelodau pwyllgorau, ac amser ar gyfer trafodaethau cyn cyfarfodydd a thrafodaethau ôl-drafod.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**61.** Cytunodd y Cadeiryddion fod arweinyddiaeth gref a diwylliant cydweithredol yn hanfodol i bwyllgorau effeithiol. Aethpwyd â hyn ymhellach gan ethol Cadeiryddion, sy'n rhoi mandad i Gadeiryddion yn annibynnol ar eu grwpiau gwleidyddol. Cefnogodd y Cadeiryddion ddatblygu canllawiau neu ddeunyddiau briffio pellach ar gyfer Aelodau newydd a Chadeiryddion newydd ar ddechrau'r Seithfed Senedd, gan ategu'r ddogfen bresennol am gyfrifoldebau'r Cadeiryddion

(**Atodiad 3**)[7]. Cytunodd y Cadeiryddion hefyd ar werth cyfleoedd anffurfiol i drafod rhyngddynt — megis rhannu enghreifftiau o arfer effeithiol, dulliau o ymdrin â sefyllfaoedd heriol, dulliau ar gyfer cefnogi deinameg gwaith adeiladol o fewn y pwyllgorau, a darparu barn ar y cyd gan Gadeiryddion ar faterion trawsbynciol.

**Argymhelliad 7.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylid darparu dogfen rolau a chyfrifoldebau i Gadeiryddion ac Aelodau Pwyllgorau ar ddechrau'r Senedd i osod disgwyliadau clir arnynt. Dylid annog a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu anffurfiol rhwng Cadeiryddion.

## Rôl Fforwm y Cadeiryddion

**62.** Roedd yr ymateb gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd yn adlewyrchu gwerth y Fforwm drwy helpu i sicrhau cysondeb, rhannu arfer da, ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, yn ystod y Chweched Senedd mae'r Fforwm wedi adolygu a diwygio'r canllawiau ar drafodion rhithwir a hybrid, trafod y dull o rannu adroddiadau, â'r defnydd o'r Gymraeg mewn pwyllgorau. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r Cadeiryddion drafod materion sy'n codi o'u pwyllgorau a nodwyd fel rhywbeth defnyddiol yn y drafodaeth ar hyfforddiant.

**63.** Hyd yma, mae Fforwm y Cadeiryddion wedi'i sefydlu ar fenter y Llywydd ac nid oes gofyniad i sefydlu un naill ai'n ffurfiol yn y Rheolau Sefydlog nac yn anffurfiol. Yn Senedd yr Alban, mae grŵp y cynullwyr sy'n cynnwys Cadeiryddion Senedd yr Alban wedi'i nodi yn y Rheolau Sefydlog gyda nifer o swyddogaethau penodol, tra yn Nhŷ'r Cyffredin mae'r Pwyllgor Cyswllt yn cynnwys Cadeiryddion y Pwyllgorau Dethol ac mae rhan o'i gylch gorchwyl yn unol â'r gwaith a wneir gan Fforwm y Cadeiryddion yn y Senedd.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**64.** Cydnabu'r Cadeiryddion fod y Fforwm yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer trafod materion, nodi problemau cyffredin a datblygu atebion. Trafododd y Cadeiryddion yr egwyddor o gynnwys gofyniad am Fforwm y Cadeiryddion yn y Rheolau Sefydlog, ond ni ddaethant i benderfyniad ynghylch a ddylai hyn ddigwydd. Yn hytrach, cytunodd y Fforwm i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes gan awgrymu y dylai ystyried a ddylid ymgorffori'r Fforwm yn y Rheolau Sefydlog. Mae'r fforwm yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor Busnes i gynnwys hyn fel mater ar gyfer ei adroddiad gwaddol fel mater i'w ystyried ymhellach yn y Seithfed Senedd.

[7] Ymateb gan y Prif Weithredwr a Chlerc

**65.** Roedd ymgysylltiad da gan Gadeiryddion ac Aelodau Pwyllgor mewn amrywiol sefydliadau rhyngseneddol yn y Senedd hon, gyda'r gynrychiolaeth wedi'i lledaenu ar draws Pwyllgorau. Cymerodd Fforwm y Cadeiryddion ddiddordeb gweithredol mewn dilyn y trafodaethau a godwyd yn y rhain, ac roedd yn enghraifft gadarnhaol o Fforwm y Cadeiryddion yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi ystyriaeth o faterion trawsbynciol.

**Argymhelliad 8.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell, er mwyn cryfhau ei effaith a'i barhad, y dylid ystyried ffurfioli Fforwm y Cadeiryddion ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Hyfforddiant a Chymorth i Bwyllgorau

**66.** Mae Comisiwn y Senedd yn darparu rhaglen hyfforddi a chynefino i Aelodau o'r Senedd. Mae hyn yn cwmpasu'r ystod eang o gyfrifoldebau sydd gan yr Aelodau. Un elfen bwysig o'r hyfforddiant hwn yw hyfforddiant pwyllgorau.

**67.** Fel y cyfeiriwyd ato uchod, cydnabu'r Cadeiryddion werth defnyddio hwyluso allanol ar gyfer datblygu cynlluniau strategol a thrafod gofynion hyfforddi ehangach yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2025.

### Cyn sefydlu pwyllgor

**68.** Roedd y Cadeiryddion o'r farn y byddai'r meysydd a ganlyn ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth i Aelodau'r pwyllgor ar ddechrau'r Senedd o fudd:

- cyflwyno rôl pwyllgorau (yn enwedig ar gyfer Aelodau newydd);
- sgiliau craffu effeithiol fel adeiladu'r naratif o amgylch cwestiynau; a
- disgwyliadau ar fod yn aelod o bwyllgor, megis presenoldeb, gwaith trawsbleidiol, cyfranogiad hybrid ac ymddygiad a rhyngweithio parchus â thystion.

**69.** Awgrymodd y Cadeiryddion y byddai gwerth hefyd mewn ystyried:

- cynnal sesiynau sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am waith gwahanol bwyllgorau a'u swyddogaethau;
- rhannu adnoddau arloesol – fel rîl uchafbwyntiau / rhestr wylio o waith craffu da;

- rhannu awgrymiadau ar ffyrdd o weithio sy'n annog pwyllgorau effeithiol.

## Cymorth a Hyfforddiant Penodol i'r Cadeirydd

**70.** Yn ogystal â hyfforddiant i aelodau pwyllgorau, cydnabuwyd bod hyfforddiant ar gyfer rôl y Cadeirydd yn fuddiol. Mae'n rôl bwysig yn y Senedd, sy'n gofyn am ystod eang o sgiliau, nad yw'r Aelodau efallai wedi'u datblygu mewn rolau blaenorol.

**71.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, darparwyd dogfen i'r Cadeiryddion yn nodi rolau a chyfrifoldebau ar gyfer cadeirio un o bwyllgorau'r Senedd (Atodiad 4). Gan adeiladu ar hyn, ystyriodd y Cadeiryddion y byddai hyfforddiant yn fuddiol ar:

- sut i adeiladu a chynnal cydbwysedd a threfn rhwng yr Aelodau mewn pwyllgor a'r pwerau ffurfiol ac anffurfiol sydd ar gael iddynt i ymdrin â sefyllfaoedd anodd a all godi.

- y rhannau allanol o rôl y Cadeirydd, megis ymdrin â'r cyfryngau; ffyrdd priodol o ymdrin â'r mathau o ohebiaeth a ddaw i law gan Gadeirydd (megis gwahoddiadau i gwrdd â phobl).

**72.** Ochr yn ochr â hyfforddiant ffurfiol, roedd y Cadeiryddion o'r farn y byddai'n fuddiol darparu cyfleoedd anffurfiol ar gyfer trafodaethau rhyngddynt ynghylch ymdrin â materion a rhannu enghreifftiau o ffyrdd o weithio fel y defnydd effeithiol o gyfarfodydd ymlaen llaw.

## Barn Fforwm y Cadeiryddion

**73.** Roedd y Cadeiryddion yn gefnogol i raglen hyfforddi barhaus gynhwysfawr. Dylid annog a chefnogi Aelodau'r pwyllgorau i ddatblygu eu sgiliau o amgylch gwaith pwyllgor. Bydd y sgiliau hyn yn gwella gwaith y pwyllgorau o ran dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Argymhelliad 9.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell y dylid annog Cadeiryddion ac Aelodau Pwyllgorau i gael hyfforddiant sy'n ymwneud â gwaith pwyllgor. Dylai hyn fod yn rhan o ddatblygiad parhaus yn hytrach na sesiwn untro.

# 3. Trefniadaeth busnes y pwyllgorau

**74.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am drefnu busnes y pwyllgorau yn y Senedd. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau ynghylch maint, aelodaeth a chylch gorchwyl y pwyllgorau. Mae'r Fforwm wedi ystyried profiadau'r Chweched Senedd, er mwyn helpu i lywio ystyriaeth y Pwyllgor Busnes nesaf yn y meysydd hyn.

**75.** Mae'r ymatebion a ddaeth i law yn y maes hwn yn canolbwyntio ar strwythur, maint, aelodaeth ac amserlennu'r pwyllgorau.

## Strwythur y pwyllgorau

**76.** Mynegodd rhai o'r pwyllgorau bryderon y gall cylchoedd gorchwyl sy'n rhy eang wanhau ffocws, a dylid ystyried hyn wrth benderfynu ar gylchoedd gorchwyl y pwyllgorau. Roedd hyn yn arbennig o wir am y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a nododd, o ganlyniad i'w gylch gorchwyl eang:

> *"… nid yw'n bosibl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r meysydd polisi sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac ar yr un pryd gyflawni ein rhwymedigaethau o dan y rheolau sefydlog yn briodol. Mae nifer y dogfennau, deddfwriaeth a phapurau cysylltiedig a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn enfawr ac mae maint y gwaith hwn yn effeithio ar y penderfyniadau y mae'n rhaid i ni eu gwneud."*

**77.** Nododd y cadeiryddion fod ehangder y portffolios, yn rhai o bwyllgorau'r Senedd, yn golygu ei bod yn anodd i'r pwyllgor sicrhau bod pob agwedd ar ei gylch gorchwyl yn cael lefelau priodol o sylw. Ymhlith yr enghreifftiau oedd gofal cymdeithasol o fewn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a llywodraeth leol o fewn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

**78.** Mae'r Senedd hon wedi gweld dau Bwyllgor diben arbennig yn cael eu sefydlu, un yn ymwneud â Diwygio'r Senedd ac un yn ystyried ymchwiliad Covid-19 Cymru. Mae'r mathau hyn o Bwyllgorau yn cael eu sefydlu i edrych ar faterion penodol ac yn cael eu diddymu unwaith y byddant wedi cyflawni'r cylch gorchwyl.

**79.** Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystyried alinio â chyfrifoldebau Gweinidogol fel model ar gyfer cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau. Mae gwahanol ffyrdd y gellid cyflawni hyn, megis defnyddio aliniad fel man cychwyn ond heb addasu cylchoedd gorchwyl mewn ymateb i newidiadau yn y Llywodraeth; adolygu cylchoedd gorchwyl o bryd i'w gilydd (efallai hanner ffordd mewn

Senedd) i ystyried a oes angen ail-aliniad, neu aliniad deinamig, gyda chylchoedd gorchwyl yn newid mewn ymateb i newidiadau portffolio Gweinidogol. Er y gallai llawer weld budd alinio wrth symleiddio llinellau atebolrwydd, roedd cydnabyddiaeth glir o'r anawsterau o addasu cylchoedd gorchwyl wrth i gyfrifoldebau Gweinidogol newid.

**80.** Ar y cyfan, roedd ymatebion y pwyllgorau o blaid pwyllgorau dwy swyddogaeth, yn hytrach na phwyllgorau polisi a deddfwriaeth ar wahân, oherwydd y gallu i'w Haelodau feithrin gwybodaeth berthnasol am y pwnc i gefnogi gwaith craffu mwy effeithiol. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth i sefydlu pwyllgorau Biliau ad hoc, yn enwedig ar gyfer deddfwriaeth drawsbynciol neu lle mae'n debygol y bydd gan rai pwyllgorau polisi symiau sylweddol o ddeddfwriaeth.

**81.** Cyflwynwyd themâu tebyg yn adolygiad deddfwriaethol y Pwyllgor Busnes. Er enghraifft, awgrymodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y dylid cyfeirio Biliau sy'n cwmpasu cylch gorchwyl sawl pwyllgor at bwyllgorau Biliau ad hoc, gydag aelodaeth hyblyg yn cael ei phennu fesul Bil yn seiliedig ar arbenigedd yn y pwnc a diddordeb yr Aelodau.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**82.** Cytunodd y Fforwm fod pwyllgorau deuol polisi a deddfwriaeth yn darparu manteision clir. Yn benodol, tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith y gall yr arbenigedd polisi ehangach a'r perthnasoedd cryf presennol â rhanddeiliaid o fewn pwyllgorau o'r fath gryfhau gwaith craffu deddfwriaethol, megis trwy nodi materion na ellir mynd i'r afael â nhw o fewn bil.

**83.** Pwysleisiodd y cadeiryddion bwysigrwydd cadw hyblygrwydd o fewn y system bwyllgorau i sefydlu pwyllgorau ychwanegol, a phan fo aelodaeth y pwyllgor yn caniatáu, yr opsiwn o ffurfio is-bwyllgorau, pan fydd y pwysau'n cynyddu, er enghraifft pan fydd nifer uchel o filiau yn cael eu cyfeirio i un pwyllgor neu pan fydd deddfwriaeth yn rhychwantu portffolios sawl pwyllgor.


**Argymhelliad 10.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod y model presennol o bwyllgorau polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol yn cael ei ddefnyddio yn y Senedd nesaf, gyda hyblygrwydd yn cael ei feithrin yn y system i sefydlu Pwyllgorau ychwanegol yn ôl pwysau deddfwriaethol a phwysau eraill.

## Maint ac aelodaeth y pwyllgorau

**84.** Roedd aelodaeth y pwyllgorau fel arfer rhwng pedwar a chwech Aelod yn y Chweched Senedd. Roedd maint y pwyllgorau yn amrywio yn ôl gofynion swyddogaeth a chydbwysedd gwleidyddol.

**85.** Gwelodd y Senedd hon ostyngiad yn nifer aelodau'r pwyllgorau (fesul pwyllgor) o'i gymharu â'r Seneddau blaenorol. Yn gyffredinol, roedd gan bwyllgorau polisi a deddfwriaeth 10 Aelod yn y Pedwerydd Cynulliad [Senedd], gyda hynny'n lleihau i 8 ar ddechrau'r Bumed Senedd.

**86.** Mae'r siart isod yn dangos nifer yr Aelodau a oedd yn eistedd ar un neu fwy o'r pwyllgorau hyd at fis Awst 2025. Roedd hanner yr holl Aelodau sydd ar gael i eistedd ar y pwyllgorau yn eistedd ar sawl pwyllgor (fel ar 01 Awst 2025). Pe bai aelodaeth y pwyllgorau wedi bod yn fwy, mae'n debygol y byddai mwyafrif yr Aelodau sydd ar gael i eistedd ar bwyllgorau wedi eistedd ar sawl pwyllgor, a allai fod wedi effeithio ar bresenoldeb mewn pwyllgorau, sef mater a adlewyrchwyd yn adroddiad gwaddol Fforwm y Cadeiryddion yn y Bumed Senedd[8].




### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**87.** Y consensws cyffredinol ymhlith Cadeiryddion ar faint gorau posibl pwyllgor oedd chwe Aelod, er bod rhai yn dadlau dros bwyllgorau mwy. Roedd gan y

[8] https://busnes.senedd.cymru/documents/s116660/PTN4 The legacy report of the Fifth Senedd Chairs Forum.pdf (tudalen 10)

Cadeiryddion nifer o bryderon sylweddol ynghylch pwyllgorau llai na chwech, yn enwedig ynghylch cynnal cworwm mewn pwyllgorau a sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei hadlewyrchu yn aelodaeth y pwyllgorau.


**88.** Roedd y cadeiryddion yn glir bod Pwyllgor â phedwar aelod yn peri risgiau sylweddol ynghylch cworwm ac na ddylid eu hystyried ar gyfer y Pwyllgorau hynny sydd â chylchoedd gorchwyl sylweddol fel y Pwyllgorau Cyllid a'r Pwyllgorau Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

**Argymhelliad 11.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell na ddylid sefydlu unrhyw Bwyllgor sydd â chylch gorchwyl sylweddol gyda phedwar Aelod, ac y dylai'r nifer diofyn ar gyfer Pwyllgorau polisi a deddfwriaeth fod yn chwe Aelod o leiaf.

## Amserlennu a Defnydd o Amser

**89.** Roedd yr ymatebion gan y pwyllgorau i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu bod llawer o bwyllgorau'n defnyddio'r slotiau amserlen wrth gefn, a bod y rhain wedi galluogi pwyllgorau i gynnal ymweliadau allanol a gwaith gyda rhanddeiliaid. Roedd galwadau am amserlennu mwy hyblyg, yn enwedig pan fydd deddfwriaeth wedi'i dyrannu i bwyllgor sy'n effeithio ar y gallu i ymgymryd â gwaith polisi ehangach o fewn y cylch gorchwyl.

**90.** Mae'r data a ddangosir yn y siart yn dangos y gweithgareddau ychwanegol, megis ymweliadau allanol a digwyddiadau rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod y Chweched Senedd.



**91.** Roedd rhai ymatebion o blaid cael diwrnodau pwyllgor pwrpasol gan fod hyn yn caniatáu i'r Aelodau ganolbwyntio mwy ar waith pwyllgor.

**92.** Yn gyffredinol, roedd pwyllgorau a gyfarfu ar ddydd Llun yn ystod y Senedd hon yn teimlo bod y slot hwn wedi gweithio'n dda. Serch hynny, pwysleisiwyd pwysigrwydd ailystyried amser cychwyn a fformat cyfarfodydd er mwyn osgoi rhoi'r Aelodau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gaerdydd dan anfantais. Tynnwyd sylw yn yr ymatebion hefyd at yr heriau o ran argaeledd Gweinidogion a achosir gan wrthdaro â chyfarfodydd Cabinet Llywodraeth Cymru.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**93.** Nododd y cadeiryddion yr heriau wrth osod amserlenni Pwyllgorau, yn enwedig o ystyried y gall llwythi gwaith amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ffactorau fel y rhaglen ddeddfwriaethol. Croesawyd cyflwyno slotiau wrth gefn yn ystod y Senedd hon, gan eu bod yn creu capasiti ychwanegol i Bwyllgorau wneud eu gwaith.

**94.** Mewn Seneddau blaenorol, mae Pwyllgorau wedi gwneud defnydd arloesol o ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog, gan gynnwys sefydlu is-bwyllgorau a defnyddio rapporteurs i ymgymryd â darnau o waith penodol. Nododd y Cadeiryddion y gallai Seneddau yn y dyfodol, gyda nifer uwch o Aelodau, ddefnyddio'r dulliau hyn yn fwy helaeth, gan wneud defnydd mwy effeithiol o amser y Pwyllgor.

**Argymhelliad 12.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Pwyllgorau yn y Senedd nesaf yn edrych ar opsiynau ar gyfer mynd ati i wneud gwaith Pwyllgor gan ddefnyddio'r ystod o ddarpariaethau sydd ar gael yn y Rheolau Sefydlog ac arfer yn y gorffennol.

## Gwaith craffu deddfwriaethol

**95.** Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cynnal adolygiad o broses y Senedd mewn perthynas â Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod[9]. Mynegodd y Fforwm ei farn ar y gwaith hwn ym mis Mawrth 2025, ac mae'n croesawu'r canfyddiadau a'r gwelliannau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Busnes.

**96.** Mae'r adroddiad hwn yn myfyrio ar fanteision pwyllgor polisi a deddfwriaeth deuol ym mharagraff 82 ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth. Ochr yn ochr â chraffu ar filiau, mae'n ofynnol i bwyllgorau hefyd graffu ar is-ddeddfwriaeth ac adrodd ar

[9] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=45113

femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau'r DU sy'n gwneud darpariaethau mewn meysydd datganoledig. Mae'r rhain yn feysydd gwaith arwyddocaol i bwyllgorau, a dylid rhoi ystyriaeth bellach i sut y cânt eu trin fel rhan o drefniadaeth Busnes y Senedd yn y dyfodol.

## Is-ddeddfwriaeth

**97.** Mae'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i derfynau amser a nodir yn *Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* ac yn Rheolau Sefydlog 21 a 27 y Senedd. Mae'r gwaith craffu hwnnw, sy'n canolbwyntio ar faterion mwy technegol fel cywirdeb drafftio tra hefyd yn tynnu sylw'r Senedd at faterion penodol o bwys gwleidyddol a chyfreithiol, yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd.

**98.** Mae'r terfynau amser cymharol fyr yn ei gwneud hi'n heriol i bwyllgorau polisi archwilio is-ddeddfwriaeth mewn ffordd ystyrlon. Mae deddfwriaeth o'r fath yn bwysig oherwydd bydd fel arfer yn cynnwys manylion am sut y dylid gweithredu polisi a nodir mewn Deddf, a thrwy hynny gyfrannu at lwyddiant neu fethiant y Ddeddf honno wrth gyflawni ei hamcanion.

**99.** Hyd at ddiwedd mis Ionawr 2026, mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno 750 o ddarnau o is-ddeddfwriaeth i graffu arnynt yn y Chweched Senedd. Mae deddfau a basiwyd gan y Chweched Senedd hefyd wedi dirprwyo nifer sylweddol o bwerau newydd i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth, ac mae hynny'n debygol o arwain at gyfaint cymharol debyg, os nad yn uwch, o ddeddfwriaeth o'r fath yn cael ei gwneud yn y Seithfed Senedd (a fydd yn dymor pedair blynedd).

## Barn Fforwm y Cadeiryddion

**100.** Nododd y Cadeiryddion farn gyffredinol y dylid cynnwys mwy o fanylion ar wyneb Biliau, gyda llai ar ôl i is-ddeddfwriaeth. O ran is-ddeddfwriaeth, ystyriodd y Cadeiryddion mai un ffordd y gallai'r pwyllgorau ymgysylltu â'r broses o wneud is-ddeddfwriaeth yw yn ystod ymgynghoriadau'r llywodraeth ar y cynigion perthnasol a chyflwyno barn cyn iddi gael ei gosod yn ffurfiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried na all Aelodau o'r Senedd ddiwygio deddfwriaeth o'r fath *ar ôl* iddi gael ei gosod. Gallai adrannau yn Llywodraeth Cymru helpu'r pwyllgorau i nodi rheoliadau y gellid eu harchwilio drwy gynnwys y pwyllgorau newydd a sefydlir yn y Seithfed Senedd fel ymgyngoreion ffurfiol wrth gyhoeddi

rheoliadau drafft. Mae gan hyn y potensial i sicrhau nid yn unig gwell cyfraith, ond gwell canlyniadau i ddinasyddion.

**Argymhelliad 13.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymgyngoreion ffurfiol Pwyllgorau'r Senedd wrth gyhoeddi rheoliadau drafft.

### Cydsyniad deddfwriaethol

**101.** Yn ystod y Chweched Senedd, bu cynnydd sylweddol yn nifer y Biliau a gyflwynwyd i Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig. Dim ond yn amodol ar gydsyniad y Senedd y dylid cytuno ar y darpariaethau datganoledig yn y Biliau hyn – cyflawnir hyn drwy osod memoranda cydsyniad deddfwriaethol a phleidlais ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol.

**102.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn gosod terfynau amser ar gyfer adrodd ar gyfer y pwyllgorau pan fydd memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Mae bodloni'r terfynau amser hyn yn aml yn heriol gan eu bod yn ddibynnol ar amserlenni craffu yn Senedd y DU, a gallant ymddangos yn aml heb fawr o rybudd.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**103.** Nododd y Fforwm yr heriau sy'n ymwneud â memoranda cydsyniad deddfwriaethol. Os bydd nifer y Biliau sy'n gwneud darpariaeth o'r fath yn cael ei gynnal yn y Seithfed Senedd, mae'r fforwm o'r farn ei bod yn debygol y byddai manteision yn codi pe bai Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl Araith y Brenin, lle mae Llywodraeth y DU naill ai'n bwriadu deddfu mewn maes datganoledig neu lle mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig. Byddai hyn yn helpu'r pwyllgorau i gynllunio eu rhaglenni gwaith ond hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt geisio dylanwadu ar ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio ar ddinasyddion Cymru.

**Argymhelliad 14.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl Araith y Brenin, lle mae Llywodraeth y DU naill ai'n bwriadu deddfu mewn maes datganoledig neu lle mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig.

# 4. Rhyngweithiadau â phwyllgorau'r Senedd

**104.** Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar weithrediad ac effeithiolrwydd y pwyllgorau, gan gynnwys gweithio hybrid a rhithwir, cymorth ymchwil a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r holl faterion hyn yn chwarae rhan wrth lunio sut mae'r pwyllgorau'n gweithredu a pha mor hygyrch ac effeithiol y gall eu gwaith craffu fod.

## Gweithio hybrid a rhithwir

**105.** Ar ddechrau'r Chweched Senedd, cynhaliwyd cyfran sylweddol o fusnes y pwyllgor yn rhithwir neu ar fformat hybrid o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Mae'r dulliau hyn bellach wedi'u hymgorffori drwy Reolau Sefydlog a chanllawiau cysylltiedig.

**106.** Mynegodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gefnogaeth eang i'r hyblygrwydd a ddarperir o weithio hybrid, yn enwedig o ran galluogi'r pwyllgorau i glywed gan ystod ehangach a mwy amrywiol o dystion. Mae cyfranogiad rhithwir wedi helpu i leihau rhwystrau daearyddol a hygyrchedd i roi tystiolaeth. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr gyfyngiadau, gan gynnwys llai o naturioldeb yn ystod trafodaethau a heriau wrth gynnal llif naturiol y cwestiynu.

**107.** Pwysleisiodd sawl ymateb fod sesiynau allweddol — fel trafodion Cyfnod 2 a gwaith craffu Gweinidogol — yn gyffredinol yn fwy effeithiol pan gânt eu cynnal wyneb yn wyneb. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw hefyd at yr angen am ddisgwyliadau cliriach ynghylch presenoldeb Gweinidogion mewn sesiynau hybrid neu wyneb yn wyneb.

**108.** Yn ystod y Chweched Senedd, ystyriodd Fforwm y Cadeiryddion yr heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd hybrid lle mae'r Cadeirydd yn cymryd rhan yn rhithwir. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall fod yn anodd i Gadeiryddion weld pob Aelod sy'n dymuno siarad a chyflawni ei rôl yn effeithiol o ran cynnal trefn. I fynd i'r afael â hyn, datblygwyd dull "rheolwr cyfarfod", lle mae Aelod sy'n mynychu wyneb yn wyneb yn cefnogi'r Cadeirydd drwy reoli cyfraniadau gan y rhai sy'n bresennol yn yr ystafell.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**109.** Croesawodd y Cadeiryddion y canllawiau wedi'u diweddaru ar achosion hybrid a rhithwir ac roeddent yn gwerthfawrogi'r dull o'u trin fel 'dogfen fyw' y gellir ei diwygio wrth i arferion gwaith esblygu. Cytunodd y Cadeiryddion y dylai'r

dull rheoli cyfarfod barhau fel dull ymarferol o hwyluso cyfarfodydd hybrid lle mae'r Cadeirydd yn cymryd rhan yn rhithwir.

**110.** Cytunodd y Cadeiryddion hefyd, o ddechrau'r Seithfed Senedd, y dylai'r disgwyliad sefydledig fod y dylai Gweinidogion fynychu wyneb yn wyneb oni bai bod cyfiawnhad clir a rhesymol dros wneud fel arall fel yr adlewyrchir ar hyn o bryd yn y canllawiau.

**Argymhelliad 15.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod y canllawiau ar gyfer trafodion hybrid a rhithwir yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn y Seithfed Senedd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu arferion gwaith y Senedd.

## Cymorth ymchwil i'r pwyllgorau gan Ymchwil y Senedd

**111.** Mae Ymchwil y Senedd yn darparu ymchwil, cyngor a gwybodaeth ddiduedd ac awdurdodol i gefnogi'r pwyllgorau wrth graffu ar bolisi a deddfwriaeth. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn pwysleisio'n gyson rôl ganolog briffiadau ymchwil o ansawdd uchel wrth alluogi gwaith craffu effeithiol.

**112.** Pan drafododd Fforwm y Cadeiryddion gefnogaeth ymchwil ar 29 Medi 2025, tynnodd y Cadeiryddion sylw at werth gwaith ymchwil annibynnol wrth eu helpu i osod y cyfeiriad strategol ar gyfer sesiynau tystiolaeth a llunio cwestiynau. Nododd y Cadeiryddion y gellid defnyddio rhag-gyfarfodydd yn fwy effeithiol i ymgysylltu â briffiadau ymchwil — gan ganiatáu i'r Aelodau drafod materion gydag ymchwilwyr cyn sesiynau cyhoeddus.

**113.** Roedd safbwyntiau amrywiol ar ba ffurf y dylid cael deunyddiau briffio, yn enwedig o ran y cydbwysedd rhwng y meysydd holi a awgrymir a chwestiynau mwy manwl. Cytunodd y Cadeiryddion y gallai gwahanol weithgareddau craffu olygu bod angen gwahanol ddulliau. Efallai y bydd meysydd cwestiynau eang yn fwy addas ar gyfer rhai ymchwiliadau polisi, tra gallai gwaith craffu deddfwriaethol mwy technegol elwa o linellau holi mwy diffiniedig i sicrhau bod materion o bwys yn cael eu trafod.

**114.** Awgrymodd y Cadeiryddion hefyd y gallai Ymchwil y Senedd weithio'n fwy agos gyda'r Aelodau y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor i gefnogi'r syniad o ddatblygu arbenigedd, a mynegwyd ddiddordeb mewn cyfleoedd i gynnwys staff yr Aelodau yn y broses o uwchsgilio a gwella llif gwybodaeth.

### Barn Fforwm y Cadeiryddion

**115.** Cytunodd y Cadeiryddion fod gwaith pwyllgor effeithiol yn dibynnu ar yr Aelodau'n gwneud defnydd llawn o gefnogaeth ymchwil, o fewn cyfarfodydd ffurfiol a thu allan iddynt. Roeddent yn cefnogi defnyddio rhag-gyfarfodydd pwyllgor i roi cyflwyniad llafar byr i friffiadau ymchwil a hwyluso trafodaeth gynnar am sesiynau tystiolaeth sydd ar ddod.

**Argymhelliad 16.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Pwyllgorau'n gwneud defnydd effeithiol a chyson o Ymchwil y Senedd drwy ymgorffori ymgysylltu strwythuredig â briffiadau ymchwil mewn rhag-gyfarfodydd pwyllgorau, gan gynnwys cyflwyniad llafar byr gan ymchwilwyr i gefnogi'r gwaith o gynllunio sesiynau tystiolaeth a meysydd holi.

## Y defnydd o'r Gymraeg

**116.** Mae Fforwm y Cadeiryddion wedi ystyried yn flaenorol sut i sicrhau y gall pawb sy'n rhyngweithio â'r pwyllgorau wneud hynny yn eu dewis iaith. Nododd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a adleisiwyd gan Lywodraeth Cymru, er bod gwasanaethau cyfieithu o safon uchel, nad yw'r profiad o gymryd rhan yn y Gymraeg bob amser yn gyfwerth â chymryd rhan yn Saesneg. Yn benodol, amlygwyd y ddibyniaeth ar glustffonau ar gyfer cyfieithu ar y pryd fel rhwystr i rai cyfranogwyr.

**117.** Ym mis Gorffennaf 2024, mynychodd Adam Price AS y Fforwm, fel Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, i drafod ffyrdd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn pwyllgorau. Trafodwyd nifer o awgrymiadau ymarferol, gan gynnwys:

- defnyddio geiriad agoriadol dwyieithog symlach ar gyfer Cadeiryddion i annog defnydd amlach o'r Gymraeg o ddechrau cyfarfodydd;
- sicrhau bod y Cadeiryddion yn tynnu sylw'n rheolaidd at argaeledd cyfieithu ac yn annog cyfraniadau yn y ddwy iaith;
- caniatáu digon o le mewn cyfarfodydd ar gyfer cyfraniadau Cymraeg; a
- sicrhau bod pob Aelod yn derbyn briffiadau dwyieithog i gefnogi defnydd mwy gweithredol o'r Gymraeg.

## Barn Fforwm y Cadeiryddion

**118.** Mynegodd y Cadeiryddion gefnogaeth gref i gamau a allai gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn trafodion pwyllgor. Cytunwyd fod y cynigion a drafodwyd ym mis Gorffennaf 2024 yn darparu sylfaen gref ar gyfer gwaith pellach yn y Seithfed Senedd.

**119.** Roedd y Cadeiryddion hefyd yn awyddus i Gomisiwn nesaf y Senedd archwilio opsiynau ar gyfer gwella'r dechnoleg sy'n cefnogi cyfieithu ar y pryd, er mwyn sicrhau bod offer yn parhau i fod yn gyfredol a'i fod yn hwyluso, yn hytrach na rhwystro, cyfranogiadau Cymraeg.

**Argymhelliad 17.** Mae Fforwm y Cadeiryddion yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn archwilio opsiynau ar gyfer gwella'r dechnoleg sy'n cefnogi cyfieithu ar y pryd yn gynnar yn y Seithfed Senedd.

# Atodiad 1: Gwybodaeth Gefndirol

## Beth yw Fforwm y Cadeiryddion?

**1.** Mae Fforwm y Cadeiryddion ("y Fforwm") yn cynnwys holl Gadeiryddion pwyllgorau'r Senedd ac mae'n gyfrifol am sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y pwyllgorau, drwy gydgysylltu, arweinyddiaeth ar y cyd, a chyfnewid gwybodaeth. Mae'n darparu lle i fynd i'r afael â materion craffu trawsbynciol, rhannu arfer da, ac edrych yn fwy strategol ar waith pwyllgorau.

## Gwybodaeth am y Pwyllgorau

### Strwythur y pwyllgorau

**2.** Ar ddiwedd y Chweched Senedd roedd 16 o bwyllgorau. Diddymwyd pedwar pwyllgor yn ystod y Senedd. Ystyrir Fforwm y Cadeiryddion yn bwyllgor anffurfiol.

**3.** Mae maint pob pwyllgor yn amrywio, rhwng pedwar a saith Aelod, fel y nodir yn **Nhabl 1** isod.

**4.** Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi y dylai aelodaeth pob pwyllgor, gan gynnwys dyrannu Cadeiryddion, adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol y mae'r Aelodau'n perthyn iddynt (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol). Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Busnes yn ôl Rheolau Sefydlog gynnig lle ar o leiaf un pwyllgor i bob Aelod nad yw'n aelod o grŵp.

***Tabl 1***

| Pwyllgorau gweithredol | Aelodaeth |
|---|---|
| Y Pwyllgor Busnes | 4 |
| Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | 6 |
| Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | 6 |
| Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog | 7 |
| Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol | 6 |
| Economi, Masnach a Materion Gwledig | 6 |
| Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | 6 |
| Cyllid | 4 |

| | |
|---|---|
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 6 |
| Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | 4 |
| Pwyllgor y Llywydd | 5 |
| Llywodraeth Leol a Thai | 6 |
| Deisebau | 5 |
| Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | 5 |
| Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad | 4 |
| Y Bil Atebolrwydd Aelodau | 5 |

***Tabl 2***

| Pwyllgorau wedi'u diddymu | Aelodaeth |
|---|---|
| Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd (2021-2022) | 5 |
| Y Pwyllgor Biliau Diwygio | 4 |
| Pwyllgor Senedd y Dyfodol | 5 (gan gynnwys y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni) |
| Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru | 6 |

## Cylchoedd gorchwyl

**5.** Wrth sefydlu a chynnig cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob un o feysydd cyfrifoldeb y llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau. Mae hynny'n cynnwys archwilio unrhyw wariant, cyllid, gweinyddiaeth a pholisi'r Llywodraeth a chyrff cysylltiedig, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig.

**6.** Y Pwyllgor Busnes sy'n cynnig cylchoedd gorchwyl y rhan fwyaf o bwyllgorau polisi a deddfwriaeth trawsbynciol ac maent yn destun pleidlais yn y Senedd. Nid oes angen i gylchoedd gorchwyl o'r fath fod yn gyd-destunol â phortffolios gweinidogol, ac yn ymarferol mae'r rhan fwyaf o bwyllgorau wedi gweithredu gyda chyfrifoldebau polisi eang sydd weithiau'n cwmpasu mwy nag un portffolio gweinidogol. Fodd bynnag, mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi bod pwyllgorau penodol yn cael eu sefydlu gyda'r cyfrifoldeb i gyflawni swyddogaethau penodol.

**7.** Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r Senedd wedi gweithredu system bwyllgorau sy'n cynnwys pwyllgorau craffu polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol.

**8.** Mae pwyllgorau'n gyfrifol am osod eu rhaglenni gwaith eu hunain a sut maent yn gweithio. Mae nifer o wahanol ddulliau o sut y gall pwyllgorau weithio, megis ymchwiliadau, ymweliadau, a digwyddiadau i randdeiliaid.

# Atodiad 2: Cylch Gorchwyl

**1.** Diwylliant pwyllgorau:

- Ystyried arferion sydd wedi gweithio'n dda a lle y gellir gwneud gwelliannau o ran pwyllgorau'r Senedd, gan gynnwys tôn a deinameg y pwyllgorau, effeithiolrwydd argymhellion, a chysylltiadau â'r Llywodraeth;
- Profiadau o ryngweithio â phwyllgorau gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, materion fel monitro amrywiaeth a rhyngweithio yn newis iaith pobl.

**2.** Trefniadaeth busnes y pwyllgorau:

i. Archwilio manteision system bresennol y Senedd (defnyddio pwyllgorau polisi a deddfwriaeth â swyddogaeth ddeuol) o gymharu â system sy'n defnyddio pwyllgorau craffu ar bolisi a phwyllgorau Biliau cyhoeddus ar wahân; a manteision system sy'n gysylltiedig â threfniadaeth y Llywodraeth o ran cyfrifoldebau'r Gweinidogion;

ii. Amserlennu pwyllgorau mewn perthynas â busnes arall y Senedd;

iii. Maint a chyfansoddiad pwyllgorau.

**3.** Rhyngweithio â phwyllgorau'r Senedd, gan gynnwys:

i. Gweithio hybrid;

ii. Briffiau ymchwil;

iii. Cymorth Cymraeg.

# Atodiad 3: Enghreifftiau o Ffyrdd o Weithio

Dyma enghreifftiau penodol o ble mae swyddogion y Comisiwn wedi hwyluso gwahanol ffyrdd o weithio sydd wedi cyfrannu at waith craffu effeithiol:

- Gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar God Gweinidogol Llywodraeth Cymru, gan ei fod yn cynnwys ymgysylltiad adeiladol â Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar lefel swyddogion, ac wedi arwain at allbwn pendant (gweithredodd y Prif Weinidog awgrymiadau'r Pwyllgor yn y cod diwygiedig).

- Ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol i doriadau cyllid ar gyfer chwaraeon a diwylliant, lle cynhaliodd Ymchwil y Senedd ddadansoddiad empirig yn dangos bod Cymru ymhlith yr isaf yn Ewrop o ran cyllid y pen. Roedd y dystiolaeth hon yn cryfhau gwaith craffu ac yn arwain at fwy o gyllid yn y gyllideb ddrafft.

- Gwaith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr, lle bu'r Pwyllgor yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chymuned ymylol drwy ddulliau casglu tystiolaeth hyblyg, ac ymweliadau â safleoedd.

- Dull newydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o graffu ar y gwaith o weithredu deddfwriaeth addysg allweddol a basiwyd yn y Bumed Senedd (Deddf ADY, a Deddf y Cwricwlwm), gyda 'chyfnodau monitro' rheolaidd sy'n cynnwys gwthio ymgynghoriadau, ymweliadau ag ysgolion, sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid, ac ymgysylltu â'r gweinidog Llywodraeth perthnasol.

- Defnyddio amrywiol offer ar gyfer ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a chasglu tystiolaeth. Er enghraifft, wrth ystyried canserau gynaecolegol, defnyddiodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol dystiolaeth fideo, a oedd yn arbennig o effeithiol wrth ymgysylltu â thystion â phrofiad byw. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cefnogi arferion cynhwysol yn ystod sesiynau tystiolaeth ffurfiol gan gynnwys galluogi tyst dieiriau i gyfrannu trwy sgwrs Zoom.

- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn sefydlu Panel Cynghori Ar-lein i gefnogi gwaith yn edrych a oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys rhieni,

gofalwyr a phobl ifanc a lywiodd gamau olaf yr ymchwiliad yn uniongyrchol, gan gynnwys: cwestiynau i dri Gweinidog Llywodraeth Cymru; nodi materion allweddol; awgrymu argymhellion posibl, a rhoi adborth ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad.

- Cydweithio trawsbwyllgorau, fel y gwelwyd yn y gwaith craffu ar y cyd ar yr Adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad gan bedwar pwyllgor o'r Senedd.
- Cyhoeddi gwybodaeth mewn ffordd sy'n gwella hygyrchedd ac ymgysylltiad â'r cyhoedd. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi cyhoeddi cynnwys mewn fformatau hawdd eu darllen, ymgynghoriadau Iaith Arwyddion Prydain, a fersiynau cryno o adroddiadau, yn aml mewn ymateb i anghenion a nodwyd gan y gynulleidfa. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd wedi cyhoeddi cynnwys mewn gwahanol fformatau, gan gynnwys fideo.

# Atodiad 4: Cyfrifoldebau'r Cadeiryddion

## Cyfrifoldebau allweddol cadeiryddion y pwyllgorau

- Pennu cyfeiriad strategol y pwyllgor a sicrhau bod blaenoriaethau tryloyw i'w weithgareddau er mwyn gwireddu rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid;
- codi perthnasedd a dylanwad y pwyllgor i'r eithaf gan gadw ei annibyniaeth bendant oddi wrth Lywodraeth Cymru;
- gweithredu'n ddiduedd bob amser, yn bendant, yn deg ac mewn modd sy'n ennyn hyder y pwyllgor;
- ennyn hyder Aelodau, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy feistroli'r pwnc sydd o dan sylw yng nghylch gorchwyl y pwyllgor; dangos technegau effeithiol mewn gwaith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid; cadw trefn; a chymhwyso'r holl ofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r pwyllgor;
- sicrhau ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o'r pwyllgor a meithrin consensws ar draws y pleidiau pryd bynnag y bo modd;
- adeiladu'r amrywiaeth o ddiwylliant a sgiliau yn y pwyllgor sy'n angenrheidiol i'w wneud mor effeithiol â phosibl fel corff sy'n gwneud gwaith craffu;
- sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyngor arbenigol, y wybodaeth a'r cymorth arall y mae arno ei angen i gyflawni ei amcanion yn effeithiol;
- sbarduno pob agwedd ar waith y pwyllgor gan sicrhau y caiff ei gyflawni'n gyflym ac i safon uchel;
- cynrychioli'r pwyllgor yn gyhoeddus, yn y cyfryngau ac o ran busnes ffurfiol y Senedd; a
- sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei ddadansoddi a'i gloriannu'n feirniadol gan sbarduno arloesedd yn ei weithrediad er mwyn cynyddu ei effaith, a sicrhau ei fod yn fwy effeithiol ac yn ymgysylltu'n well â'r cyhoedd.

Atodiad 5: Crynodeb o'r Monitro Amrywiaeth Tystiolaeth 2024-25

Senedd Cymru
**Cyfarwyddiaeth Busnes y Senedd**

# **Pwy sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau?** Crynodeb o ganlyniadau dros dro gwaith monitro amrywiaeth tystiolaeth ar gyfer 2024-25

Chwefror 2026

Mae'r pwyllgorau wedi monitro amrywiaeth y dystiolaeth y maent yn ei chael drwy dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a (rhai) gweithgareddau ymgysylltu â dinasyddion ers mis Tachwedd 2021. Cesglir y data drwy arolwg gwirfoddol, a'u hategu gan ddata eraill a gesglir gan dimau'r pwyllgorau.

Mae'r papur hwn yn crynhoi canfyddiadau dros dro data a gasglwyd rhwng mis Awst 2024 a mis Gorffennaf 2025.[10] Noder, oherwydd natur ragarweiniol y canlyniadau hyn, na ddylid eu dyfynnu'n ehangach nes bod gwiriad llawn wedi digwydd.

[10] Nodiadau: 1) Mae'r data sy'n ymwneud â llai na deg ymateb yn annelwig, a dangosir ystod data yn lle hynny. 2) Cyfrifir data ar sail nifer yr ymatebion i'r cwestiwn, gan ddiystyru'r rhai na wnaethant ymateb neu y byddai'n well ganddynt beidio â dweud. 3) Dim ond rhai cyfranogwyr gweithgareddau ymgysylltu â dinasyddion a gaiff eu gwahodd i ymateb i'r arolwg.

**Y canfyddiadau allweddol**

- Cyfradd ymateb: Ymatebodd 36% o'r rhai a wahoddwyd i gwblhau'r arolwg - sef cyfradd ymateb debyg i 2023-24.
- Llai o bobl yn ymateb mewn rhinwedd bersonol: Dychwelodd cyfran yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n cymryd rhan mewn gwaith pwyllgor yn bersonol i gyfran ychydig yn uwch na blynyddoedd cynharach sef 15%, sy'n awgrymu bod y 40% yn 2023-24 yn gynnydd anarferol. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd yn y rhai a gymerodd ran ar ran sefydliad, i 61%.
- Cynnydd parhaus yn nifer y rhai sy'n cymryd rhan am y tro cyntaf: Dywedodd 43% o'r rhai a ymatebodd nad oeddent wedi cymryd rhan yng ngwaith unrhyw bwyllgor yn y Senedd o'r blaen. Mae hyn yn gynnydd o 36% yn 2023-24. Mae cyfran y sefydliadau nad oeddent wedi cymryd rhan yng ngwaith y Senedd o'r blaen yn parhau'n gyson, sef 11%, a'r rhai sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan yn aml yn lleihau i lai na hanner, sef 48%.
- Rhagor o wynebau newydd ymysg y rhai sy'n rhoi tystiolaeth lafar: Cynnydd i 49% o'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar nad oeddent wedi ymgysylltu o'r blaen o'i gymharu â 20-30% yn 2023-24. Dim ond 59% o sefydliadau a roddodd dystiolaeth lafar oedd wedi cymryd rhan o'r blaen, sef gostyngiad o gymharu â'r 83% yn y flwyddyn flaenorol.
- Diffyg cynrychiolaeth ddigonol barhaus o'r sector preifat: daeth 33% o'r ymatebwyr o'r sector cyhoeddus, 27% o'r trydydd sector, ac roedd 12% yn cynrychioli cyrff proffesiynol ac undebau llafur. Er ei fod wedi codi o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, roedd y sector preifat yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol (yn cynrychioli 6%), tra bod ymgysylltiad ag academyddion yn parhau â'r duedd am i fyny a nodwyd yn 2023-24, gan gynyddu o 8% i 11%.
- Mae cyfranogiad o bell yn parhau'n boblogaidd ac mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan yn Saesneg: Mae cyfranogiad o bell yn parhau'n boblogaidd gyda thros hanner yr holl ryngweithiadau (52%) ond dim ond traean o'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar a wnaeth hynny o bell eleni. Cymerodd 78% o'r ymatebwyr ran yn Saesneg yn unig – sef gostyngiad o'r 88% yn 2023-24 a'r 90% yn 2022-23.
- Lefel cyfranogiad a gynhaliwyd gan bobl hŷn a phobl anabl: Arhosodd cyfran yr ymatebwyr dros 60 oed yn uchel, sef 54%, o'i gymharu â 34% o'r

boblogaeth. Roedd gan 16% o ymatebwyr anabledd, o'i gymharu â 21% o'r boblogaeth. Er bod hyn yn cynrychioli gostyngiad 23% yn 2023-24, roedd yn uwch na'r 12% yn 2022-23.

- Llai o bobl o gefndiroedd difreintiedig, a rhagor gyda graddau ac mewn cyflogaeth: Gostyngodd cyfran yr ymatebwyr o gefndir economaidd-gymdeithasol difreintiedig o 27% i 22%. Cynyddodd yr ymatebwyr a addysgwyd hyd at lefel gradd ac uwch o 83% i 90%, o'i gymharu â 32% o'r boblogaeth. Roedd cynnydd hefyd yn nifer yr ymatebwyr a oedd mewn cyflogaeth, o 65% i 84%, o'i gymharu â 45% o'r boblogaeth.
- Rhagor o fenywod yn ymateb na dynion, a rhagor o ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu: Roedd 57% o'r ymatebwyr yn fenywod, o'i gymharu â 51% o'r boblogaeth, sy'n gynnydd o'r 54% o ymatebwyr yn y flwyddyn flaenorol. Roedd cynnydd yn yr ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu, o 16% i 21%, o'i gymharu â 10% o'r boblogaeth.
- Roedd patrymau demograffig eraill yn debyg i raddau helaeth i boblogaeth Cymru o ran cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd, crefydd, a hunaniaeth genedlaethol.
- Mae rhai grwpiau'n fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymweliadau neu weithgareddau ymgysylltu nag o roi tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig: mae hyn yn cynnwys pobl hŷn, pobl anabl, pobl sy'n disgrifio eu grŵp ethnig fel un heblaw 'Gwyn', a phobl nad oeddent yn economaidd weithgar. Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a chymryd rhan mewn gweithgareddau / ymweliadau ymgysylltu na rhoi tystiolaeth lafar.
- Cynnydd mewn lefelau bodlonrwydd: Cynyddodd nifer yr ymatebwyr a oedd yn 'fodlon iawn' â'u profiad o gymryd rhan mewn gwaith pwyllgor o 40% i 51%. Roedd ymatebwyr a ddywedodd ei bod yn 'debygol iawn' y byddent yn cymryd rhan yng ngwaith pwyllgor eto pe caent y cyfle, wedi cynyddu o 61% i 73%.

## Cyfrannu tystiolaeth

- Daeth 863 o ymatebion i'r arolwg, sy'n cyfateb i **gyfradd ymateb gyffredinol o 36%** (o'i gymharu â chyfradd ymateb o 18% ar gyfer 2021-22, 41% ar gyfer 2022-23, a 37% ar gyfer 2023-24). Rhoddodd 35% o'r ymatebwyr dystiolaeth lafar, darparodd 34% dystiolaeth ysgrifenedig,

cymerodd 17% ran mewn gweithgaredd ymgysylltu, cychwynnodd 6% ddeiseb, a chymerodd 7% ran mewn trafodaethau neu ymweliadau anffurfiol.

- **Cymerodd 61% o'r ymatebwyr ran mewn gwaith pwyllgor ar ran sefydliad. Mae hwn yn agosach at y 74% yn 2022-23 o'i gymharu â'r 41% a welwyd y llynedd. Ymatebodd 22% mewn rhinwedd broffesiynol, a 15% mewn rhinwedd bersonol.**

- **Yn dilyn y tueddiad a ddechreuodd y llynedd, ymhlith y rhai a gyfrannodd ar ran sefydliadau, dywedodd y mwyafrif helaeth fod eu sefydliad wedi cymryd rhan mewn gwaith pwyllgor o'r blaen, naill ai'n aml (48%), neu unwaith/o bryd i'w gilydd (32%). Nid oedd 11% erioed wedi cymryd rhan o'r blaen - a oedd yn debyg yn fras i'r 12% yn y flwyddyn flaenorol. Nid oedd 67% o ddeisebwyr erioed wedi ymgysylltu o'r blaen. Roedd 59% o'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar wedi ymgysylltu o'r blaen, ac roedd tua 17% wedi gwneud hynny 'yn aml'.**

- **Cymerodd 52% o'r ymatebwyr ran yng ngwaith pwyllgorau o bell**, sy'n ostyngiad o'r 56% yn 2023-24. Gwnaeth 33% o'r bobl a oedd yn darparu tystiolaeth lafar hynny o bell, o'i gymharu â 90% o'r rhai a gymerodd ran mewn gweithgareddau ymgysylltu.

- **Cymerodd 78% o'r ymatebwyr ran yn Saesneg yn unig (gostyngiad pellach o'r 88% yn 2023-24 a 90% yn 2022-23).** Cymerodd 13% ran yn Gymraeg a Saesneg, ac 8% yn Gymraeg yn unig. Roedd 74% o'r dystiolaeth lafar yn Saesneg yn unig, a 15% yn Gymraeg a Saesneg.

## Cynrychiolaeth ddemograffig[11]

- Roedd data'r arolwg yn dangos bod **gor-gynrychiolaeth o bobl 35-59 mlwydd oed (o'i gymharu â data poblogaeth y Cyfrifiad).** Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchiad o'r ffaith bod y rhan fwyaf o bobl yn ymateb mewn rhinwedd broffesiynol, eu bod o oedran gweithio, ac ar adeg fwy datblygedig yn eu gyrfa.

- **Roedd pobl dros 60 mlwydd oed yn cynrychioli 30% o bobl oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau / ymweliadau ymgysylltu,** 22% o'r

[11] Nododd 84% o'r ymatebwyr eu bod yn hapus i gael eu holi amdanynt eu hunain, felly mae'r dadansoddiad a ganlyn yn seiliedig ar yr ymatebion hynny'n unig. Mae hefyd yn eithrio'r rhai a ddewisodd beidio ag ateb cwestiynau unigol neu a atebodd y byddai'n well ganddynt beidio â dweud.

rhai oedd yn cychwyn deisebau, 17% o dystiolaeth ysgrifenedig, a 18% o bobl oedd yn rhoi tystiolaeth lafar.

- Nododd 57% o'r ymatebwyr eu bod yn fenywod, o'i gymharu â 51% o boblogaeth Cymru. Eleni, am y tro cyntaf, nid oedd dim gwahaniaeth amlwg yn y cydbwysedd rhwng y rhywiau rhwng y pwyllgorau, ac roedd pob un o gwmpas y niferoedd cyfartalog. Yn ogystal, roedd yr ymatebwyr benywaidd yn cael eu gor-gynrychioli (53%) mewn gweithgareddau ymgysylltu. Roedd 57% o'r bobl a gychwynnodd ddeisebau yn ddynion. Mae'r data ar hunaniaeth rhywedd yn annelwig oherwydd niferoedd isel.

- Yn gyffredinol, roedd gan 16% o'r ymatebwyr anabledd, o'i gymharu â 21% o'r boblogaeth. Mae hyn yn ostyngiad o 23% yn 2023-24 ond nid mor isel â blynyddoedd blaenorol. O'r rhai a oedd ag anabledd, roedd gan 31% gyflwr meddygol hirdymor, roedd gan 19% gyflwr iechyd meddwl, ac roedd gan 10-20% (yr un) anabledd dysgu, anabledd corfforol a/neu nam ar y synhwyrau. Nododd 5-10% o'r ymatebwyr fod ganddynt fath o niwroamrywiaeth fel anabledd.

- Nododd 96% o'r ymatebwyr mai eu grŵp ethnig oedd 'Gwyn', sydd ychydig yn uwch na'r ganran o ran poblogaeth Cymru (94%). Roedd ymatebwyr a ddewisodd 'grwpiau ethnig cymysg neu niferus' yn 0-5%. Roedd ymatebwyr a oedd yn disgrifio eu grŵp ethnig fel 'Asiaidd, Asiaidd Cymreig ac Asiaidd Prydeinig', neu 'Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd ac Affricanaidd' yn 0-5% yr un (o'i gymharu â 3% ac 1% yn y drefn honno ym mhoblogaeth Cymru).

- Dywedodd dros hanner (57%) o ymatebwyr nad oedd ganddynt grefydd (o'i gymharu â 47% o'r boblogaeth), ac roedd 37% yn Gristnogion. Roedd 0-5% (yr un) yn Fwslimiaid, Hindŵiaid, Bwdhyddion, Sikhiaid, neu'n perthyn i grefyddau eraill.

- Dywedodd 88% o'r ymatebwyr eu bod yn heterorywiol / syth, o'i gymharu ag 89% o'r boblogaeth. Dyweodd 6% o ymatebwyr eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd (o'i gymharu â 2% o'r boblogaeth), a 6% eu bod yn ddeurywiol (o'i gymharu ag 1% o'r boblogaeth).

- Dywedodd 21% o'r ymatebwyr fod ganddynt gyfrifoldeb dros ofalu am rywun oherwydd cyflyrau iechyd hirdymor, salwch neu broblemau cysylltiedig â heneiddio (ychydig yn is na'r 25% yn 2023-24, o'i gymharu


â 10% o'r boblogaeth. Roedd mwy na 97% o'r ymatebwyr nad oeddent yn feichiog, nac ar absenoldeb mamolaeth/rhieni/mabwysiadu.

- **Roedd 90% o'r ymatebwyr wedi'u haddysgu i lefel gradd neu uwch,** o'i gymharu â 32% o'r boblogaeth. **Roedd 84% o'r ymatebwyr mewn cyflogaeth** (mae hyn yn cynnwys rhai wedi'u cyflogi amser llawn, rhan amser, yn achlysurol, neu'n afreolaidd), o'i gymharu â 45% o'r boblogaeth. Roedd y rhai nad oeddent yn weithgar yn economaidd yn parhau'n fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau / ymweliadau ymgysylltu na chyfrannu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig.
- **Roedd 22% o'r ymatebwyr o'r farn eu bod yn dod o gefndir difreintiedig.** Roedd hyn yn gyson yn fras ar draws dulliau cyfranogiad.
- **Roedd yn ofynnol i'r rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai fod yn ymwneud â gwleidyddiaeth fel rhan o'u swydd (32%) neu roedd ganddynt lawer iawn o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth (29%).** Roedd gan 33% rywfaint o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth, ac nid oedd gan 4% unrhyw ddiddordeb.

## Cynrychiolaeth ddaearyddol

- Yn yr un modd ag yn ystod cyfnod adrodd 2023-24, **gwahoddwyd yr ymatebwyr unwaith eto i rannu gwybodaeth am y cod post lle maent yn byw.** Cyflwynwyd cyfanswm o 595 o godau post dilys yn y DU. Roedd 518 o'r rhain naill ai yng Nghymru neu o fewn ardaloedd cod post sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Roedd 77 o ardaloedd cod post ymhellach i ffwrdd.
- Mae **Ffigur 1** yn fap gwres sy'n dangos nifer y codau post preswyl a gyflwynwyd yn ôl ardal cod post.
- **Mae cyfran yr ymgysylltiad â phwyllgorau'r Senedd yn cynyddu wrth i lefel yr amddifadedd leihau.** Mapiwyd codau post preswyl hefyd yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC). Dangosodd hyn fod cyfran y codau post preswyl yng Nghwintil 5 (y lleiaf difreintiedig) yn uwch na'r cyfartaledd a bod y gyfran yng Nghwintil 1 (y mwyaf difreintiedig) yn is. Mae Cwintil 1 yn cynrychioli'r 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae Cwintil 5 yn cynrychioli'r 20% lleiaf difreintiedig. Mae pob cwintil amddifadedd yn cynnwys tua 20% o'r boblogaeth.

***Ffigur 1 Map gwres sy'n dangos nifer y codau post preswyl dilys a gyflwynwyd fesul ardal cod post***




## Y sectorau a gynrychiolwyd

- Dywedodd 60% o ymatebwyr a gymerodd ran yn rhinwedd eu swydd neu ar ran sefydliad eu bod hwy neu eu sefydliad yn cynrychioli buddiannau pobl â nodweddion penodol[12] fel rhan greiddiol o'u gwaith

[12] Gallai ymatebwyr ddewis cynifer o opsiynau ag y dymunent o restr: Oedran, Rhyw, Hunaniaeth Rywedd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Hunaniaeth Genedlaethol, Grŵp Ethnig, Anabledd, Crefydd, Cyfrifoldebau Gofalu, Cefndir neu Statws Economaidd-gymdeithasol, Iaith, Dim o'r uchod, neu Mae'n well gen i beidio â dweud

(y rhai mwyaf cyffredin oedd cefndir / statws economaidd-gymdeithasol, oedran ac anabledd).

- Roedd 33% o ymatebwyr yr arolwg yn dweud eu bod yn cynrychioli'r sector cyhoeddus (cynnydd o 2023-24, yn dychwelyd i'r 33% a adroddwyd yn 2021-22). **Roedd cynrychiolaeth dda o'r trydydd sector / sector gwirfoddol o hyd, gyda 27% o ymatebwyr yn dod o'r sector hwn.** Roedd cyrff proffesiynol ac undebau llafur yn cynrychioli 12% o ymatebwyr yr arolwg. Ar y cyfan, mae'r ffigurau hyn i gyd yn cyd-fynd â blynyddoedd blaenorol.

- Roedd 12% o'r ymatebwyr yn dod o'r sector academaidd/ymchwil, sy'n cadw at y cynnydd i 11% a welwyd yn 2022-23.

- Er bod y gynrychiolaeth wedi cynyddu, **mae'r sector preifat yn parhau heb gynrychioleth ddigonol, gan gynrychioli dim ond 6% o ymatebwyr yr arolwg.** Fel cyfeirbwynt, mae 69% o weithlu Cymru yn cael eu cyflogi yn y sector preifat .[13]

## Y profiad o roi tystiolaeth

- **Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n fodlon (31%) neu'n fodlon iawn (51%) gyda'u profiad o gyfrannu at waith pwyllgor**, sef cynnydd o 24% a 40% yn y drefn honno yn 2023-24. Roedd graddfeydd boddhad yn uchel ar gyfer agweddau penodol ar y profiad, gan gynnwys y rhybudd a roddwyd, cyfleoedd i roi eu barn, ac unrhyw gymorth gan staff.

- **Dywedodd 73% o ymatebwyr ei bod yn 'debygol iawn' y byddent yn cymryd rhan yng ngwaith pwyllgor eto pe caent y cyfle** - sef cynnydd o 61% yn 2023-24.

[13] Ystadegau Cymru, Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat (y flwyddyn yn gorffen fis Medi 2024)